

**DEDDF PRIFFYRDD 1980 - ADRAN 96**  
**CAIS AM DRWYDDED I BLANNU AR Y BRIFFORDD**  
**Mae'r cais hwn ar gyfer Cyngorau Tref a Chymuned**

**ADRAN 1** - I'w chwblhau gan yr Ymgeisydd/Ymgeiswyr

Dylai'r ymgeisydd hefyd ddarllen yr amodau safonol ar y dudalen nesaf

<p>Enw a chyfeiriad llawn yr Ymgeisydd/Ymgeiswyr.</p>	
<p>Rhowch y wybodaeth ganlynol am y briffordd y bwriedir plannu gwair, llwyni ac ati arni</p> <p>a) Enw ffordd ac union leoliad y safle (rhowch gynllun)</p> <p>b) Lled y ffordd gerbydau.</p> <p>c) Lled yr ymylon priffyrdd.</p>	
<p>Rhowch fanylion llawn ynghylch y coed, llwyni, planhigion, gwair ac ati y bwriedir eu plannu, gan gynnwys uchder llawn ar ôl tyfu, ymlediad ac aeddfedrwydd coed a llwyni a dyfnder cloddio</p>	

Llofnod: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

## ***Dylai'r adran hon gael ei chwblhau gan y Rheolwr Gwaith Stryd, Cyngor Sir Caerfyrddin***

Gofynion Arbennig (os oes o gwbl)	
Sylwadau Cyffredinol	

### **AMODAU SYLFAENOL**

1. Yn achos argyfyngau, mae'r Cyngor Sir a'r darparwyr gwasanaeth yn cadw'r hawl i gael gwared ar unrhyw blanhigion ac ni fyddant yn atebol i dalu am unrhyw ddifrod.
2. Ni ddylai'r gwaith plannu rwystro gwelededd gyrrwyr wrth gyffordd a/neu droeon, neu fynedfeydd preifat.
3. Rhoddir gwybod i ymgeiswyr na ddylai unrhyw waith plannu amgáu'r briffordd a bod y tir, sydd dan sylw yn y drwydded, yn dal i fod yn briffordd y mae'r cyhoedd â'r hawl i'w defnyddio.
4. Cyfrifoldeb deiliad y drwydded yw cynnal a chadw'r gwaith plannu.
5. Bydd y drwydded wedi'i hatodi i'r papurau yn ymwneud â'r safle a bydd yn parhau mewn grym hyd nes y bydd yr awdurdod yn ei thynnu yn ôl.
6. Rhaid i'r holl waith plannu a chynnal a chadw o fewn terfynau priffyrdd gael ei wneud mewn modd diogel gan ddefnyddio'r arwyddion, y goleuadau a'r gardiau priodol, yn unol â chanllawiau Diogelwch Gwaith Stryd a Gwaith Ffordd ac o dan oruchwyliaeth unigolyn sydd â Charden Goruchwilydd Gwaith Stryd. Rhaid cymryd gofal i sicrhau bod yr holl weithwyr a'r cyhoedd yn ddiogel ac nad oes difrod yn cael ei achosi i gyfarpar o dan y ddaear.

### **Ynghylch: defnyddio hadau 'blodau gwyllt':**

Yn gyffredinol (ac yn dilyn cyngor Plantlife) rydym yn credu, er bod hadau blodau gwyllt a phlygiau planhigion yn briodol mewn rhai lleoedd (e.e. ardaloedd trefol ar laswelltir amwynder ac o amgylch adeiladau), yn aml mae'n well gadael i rywogaethau dyfu ar ymylon yn naturiol. Drwy wneud hyn, byddant yn cadw cymeriad lleol ein fflora sy'n gwneud Sir Gaerfyrddin mor arbennig: bydd ymylon ffyrdd Sir Gaerfyrddin yn wahanol i ymylon mewn rhannau eraill o'r DU. Mae ein rhywogaethau planhigion lleol yn aml yn fwy addas ar gyfer yr hinsawdd a'r amodau pridd lleol, ac efallai nad yw hynny'n wir o ran y blodau mewn cymysgedd hadau.

Os bydd cymunedau'n dymuno eu defnyddio, gofynnir i chi ystyried y canlynol:

- Beth sy'n tyfu yno'n barod? A oes modd gwella hyn drwy dorri a chasglu'r gwair i gael gwared ar faetholion ac annog mwy o blanhigion blodeuol ar y glastir?
- A allech hau hadau Cribell Felen ar eu pennau eu hunan? Mae hwn yn blanhigyn blodeuol lled-barasitig sy'n gallu gwanhau'r gwair presennol ac annog rhagor o amrywiaeth ar y glastir.

- Meddyliwch yn ofalus am yr hyn yr ydych yn ei hau - a ydych yn hau unflwyddiaid, eilflwyddiaid neu blanhigion lluosflwydd - neu gymysgedd? Bydd hyn yn dylanwadu ar ganlyniadau eich hau a'r gwaith rheoli/cynnal a chadw parhaus.
- Meddyliwch am amseru'r hau, y gwaith paratoi a'r gwaith cynnal a chadw parhaus fydd ei angen – gall hyn fod yn sylweddol ac mae angen ei ystyried fel rhan o'ch prosiect.
- O ble y byddwch yn cael eich hadau? Ceisiwch ddefnyddio ffynhonnell leol ac yn sicr o'r DU.

Mae llawer o'r lluniau a welwn o'r defnydd o flodau gwyllt yn gofyn am chwynladdwyr i ladd y llystyfiant presennol, ac ni fydd y blodau hyn yn para mwy na blwyddyn fel arfer. Yn aml mae cyflenwyr yn cynghori bod chwynladdwr yn cael ei ddefnyddio cyn ail hau'r hadau yn yr ail flwyddyn. Mae hwn yn ddull cymharol gostus sydd fel arfer yn dibynnu ar chwynladdwyr i lwyddo.